# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

## Nos Fawrth, Mai 5ed 2026 am 7.30 o'r gloch yn Bro Derfel.

Presennol: Alwyn Jones (cadeirydd), Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Rita Jones, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwenda Evans Dewi Pritchard a Iolo V. Evans.

Gan nad oedd Gwenda Evans yn gallu bod yn bresennol cytunodd Alwyn Jones i gadeirio'r cyfarfod.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mawrth 3ydd 2026) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant.

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf – **Nodwyd.**
b) Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026 – **yn dilyn trafodaeth cytunwyd i geisio am arian i wella ffordd mynwent Llandderfel. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a chontractwyr lleol i gael prisiau erbyn cyfarfod mis Mehefin.**

<u>v) Gohebiaeth</u>
<u>a) Cwmni Pum Plwy Penllyn</u>
i) Diweddariad gan gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned.

<u>b) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Cyfarfod Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn – Ebrill 29ain.
ii) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd – Mai 2026

<u>ch) Amrywiol.</u>
i) Cwyn am y gwasanaeth ail gylchu yn Llandderfel.
ii) Heddlu Gogledd Cymru – cyfarfod gyda chynghorau cymuned a thref, Ebrill 30ain.
iii) Llywodraeth Cymru - Cynllun Gweithredu Adfer Natur newydd.
iv) Lloyds Coaches – gwasanaeth bws T3c a phroblem mynediad i bentref Llandderfel. **Cytunwyd i ail gysylltu a pherchnogion y tai perthnasol ac ymghyngori a Chyngor Gwynedd ynglyn a chael llinellau melyn ar ran o'r ffordd. Roedd y clerc eisioes wedi gofyn i'r heddlu lleol gadw golwg ar y sefyllfa a chael gair gyda pherchnogion y ceir oedd yn creu'r trafferth i'r bysiau.**
v) Parc Cenedlaethol – Cronfeydd Cymunedol Eryri

<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>
i) PEDW - DNS/3276735 - Fferm Wynt Gaerwen - Hysbysiad o'r bwriad i atal penderfyniad er mwyn caniatau amser i gyflwyno rhagor o wybodaeth.
ii) C26/0154/04TC – Cais am Dystysgrif Cyfreithlon ar gyfer defnydd arfaethedig fel lleoliad priodas o dan Ddosbarth defnydd D2 presennol. Pen Isa'r Llan, Llanfor.
iii) C26/0153/04TC – Cais o dan Adran 191 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref am Dystysgrif Cyfreithlon am ddefnydd presennol C1 o'r prif dy ac adeiladau allanol fel llety gwyliau. Pen Isa'r Llan, Llanfor.

**Gan fod dyddiad cau i dderbyn sylwadau ar geisiadau Pen Isa'r Llan wedi bod cyn y cyfarfod roedd y clerc wedi ymgynghori a'r cynghorwyr dros ebost. Derbyniwyd sylwadau hefyd gan drigolion cyfagos am y problemau gyda'r ceir ychwanegol yn parcio o gwmpas y pentref a'r cerddoriaeth uchel yn cael ei chwarae yn hwyr yn y nos pan fu digwyddiadau yn cael ei cynnal yno.**

## vii) Materion Ariannol

a) Derbyniadau – Praesept 2026/27 - £7500
b) Taliadau – **Cytunwyd i dalu –**
**i) AJG Community Schemes (yswiriant),**
**ii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd)**
**iii) Deiniol Davies (torri gwrych mynwent Llandderfel)**

## viii) Materion lleol.

a) **Cytunwyd i anfon y cwynion a dderbyniwyd i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MEHEFIN 2il YN NEUADD BRO DERFEL.**